

PRIODASAU CYPLAU O'R UN RHYW

Y CWESTIWN

Ers y 29ain o Fawrth eleni, mae'r gyfraith wedi rhoi'r hawl i gyplau o'r un rhyw briodi'n gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. Golyga hynny fod disgwyl i ni yma yn y Tabernacl benderfynu a ydym yn barod i ganiatáu hynny yn yr adeilad hwn ai peidio.

Beth yw eich safbwynt chi? A ddylid agor drysau'r Tabernacl i gyplau cyfunrywiol gael priodi yma?

Mae'r papur hwn, a gyhoeddir gan y Gweithgor Gweinidogaethu, yn amlinellu'r cefndir ac yn gosod yr ystyriaethau yn eu cyd-destun cyn awgrymu sut y dylem symud ymlaen.

CEFNDIR Y DDEDDF

Pasiwyd deddf newydd yn y flwyddyn 2005 yn caniatáu i bobl hoyw gynnal seremoni i greu partneriaeth sifil rhwng dau berson o'r un rhyw. Roedd partneriaeth o'r fath yn rhoi hawliau a chyfrifoldebau cyfreithiol i'r partneriaid, ond ni ellid galw'r bartneriaeth yn 'briodas', ac ni ellid cynnal y seremoni fel rhan o addoliad crefyddol. Yr enw ar y ddeddf newydd oedd **Deddf Partneriaeth Sifil Rhagfyr 2005**.

Bum mlynedd yn ddiweddarach, pasiwyd **Deddf Cydraddoldeb 2010** ac roedd Adran 202 yn diddymu'r gwaharddiad ar gynnal y seremoni mewn adeilad crefyddol yng Nghymru a Lloegr.

Ym mis Rhagfyr 2012, cyhoeddodd y llywodraeth ei hymateb i'r ymgynghoriad a fu ar gydraddoldeb mewn priodasau. Cafwyd deddfwriaeth ddrafft yn amlinellu'r bwriad i ganiatáu cynnal priodasau rhwng cyplau o'r un rhyw mewn adeiladau crefyddol ar yr amod bod yr enwadau yn dewis bod yn rhan o hynny.

Yr hyn a ddilynodd oedd **Deddf Priodas (Cyplau o'r Un Rhyw) 2013** a basiwyd ar Orffennaf 17eg, 2013 ac a ddaeth i rym ar Fawrth 29ain, 2014.

Roedd llunwyr y ddeddf hon yn awyddus i roi dewis i'r gwahanol eglwysi benderfynu drostyn nhw'u hunain a oedden nhw am fod yn rhan o'r ddarpariaeth newydd ai peidio, ac felly penderfynwyd eithrio Eglwys Loegr. Y rheswm dros adael Eglwys Loegr allan o'r ddeddf oedd am ei bod yn eglwys wladol, sefydledig, ac felly fyddai gan yr offeiriaid ddim dewis ond cytuno i unrhyw gais gan gyplau hoyw pe bai'n rhan o'r ddeddf. Cydnabyddir felly hawl yr Eglwys i benderfynu drosti'i hun, ac os bydd yn dymuno bod yn rhan o'r ddarpariaeth rywbryd yn y dyfodol gall wneud cais am i'r ddeddf gael ei newid.

Yr hyn sy'n rhyfedd yw fod yr Eglwys yng Nghymru hefyd wedi cael ei heithrio, er nad yw wedi bod yn eglwys wladol ers y datgysylltu oddi wrth Eglwys Loegr ymron i gan mlynedd yn ôl. Roedd amryw'n ddig iawn am hynny, yn ei weld fel sarhad ar yr Eglwys yng Nghymru ei bod yn cael ei thrin fel chwaer fach i Eglwys Loegr. Ond efallai bod yr egwyddor o fethu cynnal priodasau hoyw yn cael ei groesawu gan mai polisi'r Eglwys yng Nghymru yw bod

“priodasau o’r fath yn groes i ddysgeidiaeth yr eglwys ar briodas, sy’n datgan mai uniad ffyddlon am oes rhwng dyn a dynes ydyw.”

O ran gweddill yr enwadau, mae disgwyl iddyn nhw benderfynu drostyn nhw’u hunain.

Golyga hynny y bydd nifer o enwadau yn penderfynu’n ganolog. Wedi’r cwbl, dyna’r drefn arferol a chyfansoddiadol mewn enwadau megis yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig a’r Presbyteriaid. Ond gan mai eglwys gynulleidfaol yw’r Annibynwyr Cymraeg, mae’r hawl i benderfynu yn perthyn i gynulleidfa pob eglwys unigol. A dyna egluro pam y mae’n rhaid i ni yn y Tabernacl benderfynu drosom ni ein hunain.

Fe allem weld sefyllfa’n codi lle mae dau gapel Annibynnol o fewn tafliad carreg i’w gilydd yn gwneud dewis gwahanol, ond dyna natur bod yn “annibynnol”. Gofynnodd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i ni drafod y mater mewn Cwrdd Eglwys (neu Gyfarfod Cyffredinol) a dod i benderfyniad. Mae hynny’n gwneud synnwyr fel y bydd gennym bolisi pendant os y daw unigolion hoyw atom i ofyn am yr hawl i briodi yma.

Nid oes gan yr Undeb ei hun bolisi canolog ar y mater, ac felly nid yw’n gwneud argymhelliad pendant, ond y mae wedi cyhoeddi papur byr fel canllaw i gychwyn ystyried, a byddwn ninnau’n defnyddio’r arweiniad a gafwyd yn ein trafodaethau ni.

SUT Y DYLEM BENDERFYNU?

Pan drafodwyd y mater hwn mewn cyfarfod o’r Gweithgor Gweinidogaethu rai misoedd yn ôl, roedd yr aelodau’n derbyn na fydd yn gwestiwn hawdd i lawer o bobl, ac y gallai dadlau yn ei gylch beri loes i rai. Rhaid derbyn y bydd dwy farn bendant, a’r her i ni fydd ystyried y cyfan yn sensitif mewn awyrgylch ofalgar, gymodlon, a gweddigar, gan obeithio dod i benderfyniad heb i neb gael eu brifo na’u digio. Ein dyletswydd yw cynnal eglwys gariadus a chynhwysol.

Gyda hynny mewn golwg, penderfynwyd cyhoeddi’r papur hwn yn amlinellu’r ystyriaethau, a byddwn yn dilyn hynny gyda chyfarfod agored i ysgogi trafodaeth ddeallus a gofalus am 4.00 o’r gloch brynhawn Sul, Ionawr 11eg. Efallai y bydd angen cyfarfod pellach i’n tywys i gyfnewid safbwyntiau mewn modd pwyllog a sensitif. Pan fyddwn yn teimlo ein bod yn ddigon aeddfed i ddod i benderfyniad, cynhelir Cwrdd Eglwys i’r perwyl.

BETH YW’R GWAHANOL SAFBWYNTIAU?

Nid yw’n fwriad i restru’r holl ddadleuon o blaid ac yn erbyn yn y ddogfen hon, gan y byddai hynny’n ormod o gowlaid. Barn y Gweithgor Gweinidogaethu yw y gellid gwneud hynny yn y cyfarfod(ydd) a gynhelir yn nes ymlaen.

Yr hyn a wneir yma yw crynhoi’r prif safbwyntiau er mwyn ysgogi pobl i ddechrau meddwl.

Y PRIF WRTHWYNEBIAD

I'r rhan fwyaf o'r bobl hynny sy'n gwrthwynebu priodasau cyfunrywiol, y prif faen tramgwydd yw eu cred fod hyn yn groes i ddysgeidiaeth y Beibl, ac nad yw priodas ond yn bosib rhwng dyn a dynes. Maen nhw'n grediniol mai rhywbeth a sefydlwyd gan Dduw er mwyn i wŷr a gwragedd gyd-fyw mewn uniad cysegredig yw priodas. Maen nhw hefyd yn gweld hanes Adda ac Efa fel y briodas gyntaf erioed, ac fel yr unig fath o briodas sy'n dderbyniol.

Bydd rhai pobl yn dyfynnu nifer o adnodau sydd, yn eu tŷb nhw, yn dystiolaeth fod perthynas hoyw yn bechadurus. Dyna neges pennod 19 yn Llyfr Genesis yn ôl y rhai sy'n coleddu'r safbwynt hwn. Felly hefyd Lefiticus 18:22 sy'n dweud: "Nid wyt i orwedd gyda dyn fel gyda gwraig; y mae hynny'n ffeidd-dra." A Lefiticus 20:13 "Os bydd dyn yn gorwedd gyda dyn fel gyda gwraig, y mae'r ddau wedi gwneud ffeidd-dra; y maent i'w rhoi i farwolaeth, ac y maent yn gyfrifol am eu gwaed eu hunain." Pan fydd pobl yn troi at yr Ysgrythur am dystiolaeth, gwelwn fod chwech adnod neu adran yn y Beibl yn cael eu dyfynnu fel arfer. Y rhan yw Genesis 1:26 - 28, Genesis 19:4 - 5, Lefiticus 18:22, Rhufeiniaid 1, I Corinthiaid 6:9 - 10, ac I Timotheus 1: 9 - 10.

Felly, meddai'r bobl hyn, hyd yn oed os yw'r ddeddf wedi newid ar y mater hwn, fe ddylai awdurdod y Beibl aros yn ddi-gyfnewid. Mae arweiniad yr Ysgrythur yn eglur.

Mae eraill yn credu yn yr un safbwynt, ond am resymau gwahanol. Does ganddyn nhw ddim gwrthwynebiad i bobl hoyw gael perthynas, ond maen nhw'n methu derbyn y syniad o "briodas" hoyw. Roedd yr hen drefn, sef partneriaeth sifil, yn gwbl dderbyniol gan y Cristnogion hyn, ond dydyn nhw ddim yn teimlo'n gyfforddus gyda'r syniad o ddau o'r un rhyw yn priodi.

PRIF DDADLEUON Y RHAI SYDD O BLAID

I'r Cristnogion hynny sydd o blaid priodasau cyfunrywiol, mae'n bwysig pwysleisio, yn y lle cyntaf, fod rhai pobl wedi eu geni gyda thynfa rywiol tuag at rai o'r un rhyw â nhw. Does dim y medran nhw ei wneud am hynny, ac nid peth llesol yw ceisio mygu teimladau o'r fath gan y gwyddom y medr arwain at wewyr euogrydd a rhwystredigaeth.

Yn y gorffennol, bu'r eglwys yn euog o wahaniaethu yn erbyn pobl hoyw, a diau bod gweithredu'n homoffobig yr un mor anghywir â bod yn hiliol neu wrthwynebu hawliau merched.

O dderbyn bod rhai pobl wedi eu creu yn hoyw, ac na ddylid eu hymylu na'u gwrthod, onid y peth pwysig mewn priodas yw bod dau berson yn ymrwymo gerbron Duw i arddel perthynas gariadus? Dyna'r prif safbwynt o blaid priodasau un rhyw, ac mae'r rhai sy'n coleddu'r agwedd hon yn dadlau mai rhywbeth sy'n esblygu yw'r syniad o briodas.

O ran yr adnodau a ddyfynnir i fynegi safbwynt gwrth-hoyw, byddai cefnogwyr priodasau cyfunrywiol yn dweud mai cam gwag yw defnyddio adnodau allan o'u cyd-destun i geisio profi pwynt. Er enghraifft, os ydym yn arddel yr hyn a ddywedir yn Lefiticus 18:22 a fyddem ni hefyd yn derbyn Lefiticus 21:16-23, sy'n honni nad yw Duw yn croesawu unrhyw berson gyda nam corfforol neu feddyliol? Mae rhai diwinyddion wedi dadansoddi'r chwe adnod y dywedir eu bod yn condemnio perthynas hoyw i brofi nad dyna eu bwriad o gwbl.

Dylem gofio hefyd, meddai'r garfan hon, fod yr Hen Destament yn cefnogi caethwasiaeth, a Paul yn gwrthod unrhyw statws i ferched o fewn yr eglwys.

Ym marn rhai sy'n dadlau o blaid y safbwynt hwn, yr unig fath o berthynas hoyw a fyddai o fewn profiad awduron yr Hen Destament a'r Testament Newydd oedd cyfathrach rywiol anllad, anfoesol, ac nid perthynas gariadus, sefydlog. Dyna pam y mae'r Beibl yn condemnio bod yn hoyw meddai'r bobl hyn. Maen nhw'n gweld y cwestiwn sy'n ein wynebu heddiw yn tanlinellu egwyddor bwysig, sef y syniad o gyfaddawd a bod yn gynhwysol mewn ysbryd cariadus, a dyna, wedi'r cwbl, yw hanfod efengyl Iesu Grist. Os bu dehongliad yr Eglwys o'r Ysgrythur yn anghywir ynghylch hawliau pobl dduon, caethweision a merched, tybed a y ydym yn anghywir ynghylch pobl hoyw hefyd?

Y FFORDD YMLAEN

Dros y misoedd nesaf, mae'n ddyletswydd arnom i drafod y mater hwn yn onest, yn gyfrifol ac yn agored. Gobeithio y medrwn wrando'n llawn cydymdeimlad ar safbwyntiau ein gilydd. Yn y pen draw, y gobaith yw y byddwn yn cytuno ar ateb sy'n gydnavs â darlun yr Iesu o deyrnas Dduw.

GOBLYGIADAU EIN PENDERFYNIAD

Os byddwn yn penderfynu yn erbyn caniatáu i'r Tabernacl gael ei ddefnyddio ar gyfer priodasau cyfunrywiol, dyna ddiwedd y stori. Nid ydym yn torri unrhyw ddeddf drwy wrthod.

Ar y llaw arall, os byddwn yn penderfynu o blaid, bydd angen i ni gofrestru'r capel ar gyfer priodasau un rhyw. Golyga hynny y gall cwpwl hoyw ddod atom i ofyn am yr hawl i briodi yma. Ein dewis ni fyddai caniatáu neu wrthod. Os gwrthodwn am ryw reswm, dyna ddiwedd y stori. Nid ydym yn torri unrhyw ddeddf drwy wrthod.

Os cytunwn, nid oes gorfodaeth ar unrhyw un i fod yn rhan o'r seremoni, boed yn weinidog, yn swyddog, yn organydd neu'n aelod cyffredin. Nid yw'r rhai sy'n gwrthod yn torri unrhyw ddeddf drwy wrthod.

Beth bynnag fydd ein penderfyniad, efallai ei bod yn bryd i ni ffurfioli ein polisi ar briodasau yn gyffredinol. Ai dim ond aelodau ddylai gael priodi yn y Tabernacl, neu a ydym yn fodlon agor y drysau i gyplau o'r pentref – neu tu hwnt – briodi yma hefyd? Os bydd y gynulleidfa'n dymuno hynny, bydd hwn yn gyfle i gyhoeddi polisi pendant.

SAFBWYNTIAU ENWADAU ERAILL

Fel y soniwyd eisoes, mae disgwyl i bob eglwys Annibynnol wneud ei dewis ei hun. Mae'r un peth yn wir am Undeb y Bedyddwyr, ond cyhoeddwyd yn ganolog na fyddai croeso i unrhyw weinidog briodi person o'r un rhyw. Yn wahanol i ni a'r Bedyddwyr, gwneir y penderfyniad yn ganolog gan y Presbyteriaid, ac maen nhw wedi gohirio'r mater am y tro i aros am adroddiad pellach. Felly hefyd yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig, a'r Eglwys

Fethodistaidd (Wesleiaidd). Does gan yr Anglicaniaid ddim dewis yn y mater, oherwydd iddyn nhw gael eu hepgor o'r ddeddf. Mae'r Crynwyr yn gryf o blaid priodasau cyfunrywiol.

CRYNHOI

Ar hyn o bryd, nid yw'r Gweithgor Gweinidogaethu yn argymhell un safbwynt yn fwy na'r llall; credwn ei bod yn bwysig i bawb ystyried y mater drostyn nhw'u hunain yn y lle cyntaf.

Gofynnwn i chi ystyried y pwyntiau canlynol yn ddwys:

- Derbyniwn mai pwrpas priodas yw dathlu cariad rhwng dau berson gyda'r naill yn ymrwymo i'r llall, gerbron Duw, gyda gofal, ffyddlondeb, tynerwch, tosturi cydymdeimlad a chydlyniad. A all y ddau sy'n cyfnewid llwon fod o'r un rhyw?
- A ydym yn derbyn y syniad fod natur priodas wedi newid dros yr oesau?
- Os ydym o blaid yr egwyddor o briodas un rhyw, a ydym yn fodlon cofrestru'r Tabernacl i'r diben hwnnw?

GWYBODAETH BELLACH:

Os am ragor o wybodaeth ar y mater, fe allai'r gwefannau isod fod o ddefnydd. Os nad ydych yn medru mynd ar y we, mynnwch air gydag Emlyn Davies (02920 891344).

“The Church, sexuality, inclusion and an open conversation” gan y Parchg. Steve Chalke
<http://www.oasisuk.org/inclusionresources/Articles/MOIabridged>

Evangelical Alliance <http://www.eauk.org>

Christian Institute <http://www.christian.org.uk>

Coalition for marriage: <http://c4m.org.uk>

Erthygl gan y Parchg. Daniel Payne, un o gefnogwyr y *Progressive Christian Alliance*
http://www.lgbtministriescleveland.org/uploads/1/1/9/0/11908872/may_2420126_bible_pass_ages_1.pdf

Trafodaeth ar Fwrdd Clebran Cristnogaeth 21, Medi 2013
<http://www.cristnogaeth21.org/phpBB3/viewtopic.php?f=7&t=230&sid=5afbb910ff0138658d9fc226018baf2d>

Trafodaeth ar Fwrdd Clebran Cristnogaeth 21, Mawrth 2014
<http://www.cristnogaeth21.org/phpBB3/viewtopic.php?f=2&t=261&sid=5afbb910ff0138658d9fc226018baf2d>

Papur Cefndir y Crynwyr <http://www.quaker.org.uk/samesexbriefing>

Gwybodaeth gan Lywodraeth Prydain:

<https://www.gov.uk/government/policies/creating-a-fairer-and-more-equal-society/supporting-pages/equal-marriage-for-gay-lesbian-bisexual-and-trans-people-and-protecting-lgbt-rights>

Yr Eglwys yng Nghymru (o wefan y BBC)

<http://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-27119239>

Datganiad esgobion yr Eglwys yng Nghymru:

http://www.churchinwales.org.uk/faith/believe/bench_sameosexmarriage/